OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 177

# Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) 2020

**Diwygio Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 12(4), yn lle'r geiriau o "ecinodermiaid" hyd at "awdurdod lleol" rhodder "ecinodermiaid byw, tiwnigogion byw a gastropodau morol byw a chynhyrchion cyfansawdd sy'n cynnwys cynhyrchion pysgodfeydd wedi eu prosesu a fwriedir i'w bwyta gan bobl, caiff yr awdurdod gorfodi".

(3) Yn rheoliad 20—

(a) ym mharagraff (7), hepgorer y geiriau o ", ond mae ganddo'r hawl" hyd at y diwedd;

(b) hepgorer paragraff (8).

(4) Yn rheoliad 23(6), hepgorer y geiriau o "ond mae ganddo'r hawl" hyd at y diwedd.

(5) Yn Atodlen 2, ym mharagraff 9(1), yn y testun Saesneg, ar ôl "purposes" mewnosoder "of".

(**1**) O.S. 2011/2379 (Cy. 252), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/44 (Cy. 5); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.